PARTNERIAETH

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cyngor Abertawe
Swansea Council

At sylw:
**Y Cyng. Darren Price**
Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth

| | |
|---|---|
| Gofynnwch am: | Y Tîm Craffu |
| Llinell y Swyddfa Graffu: | 01792 637256 |
| e-bost: | scrutiny@swansea.gov.uk |
| Dyddiad | 10 Tachwedd 2022 |

Annwyl Gynghorydd Price

**Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth – 24 Hydref 2022**

Hoffai'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ddiolch i Ian Altman, y Swyddog Arweiniol, a Helen Morgan Rees, y Cyfarwyddwr Arweiniol, am fod yn bresennol yn ein cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnom amdani, ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i gyfleu ein safbwyntiau o'r cyfarfod hwnnw.

Yn y cyfarfod hwn, sef ein cyfarfod cyntaf, cawsom drosolwg o rôl Partneriaeth a'r trefniant cyfreithiol, a chawsom adborth o gyfarfod Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2022. Clywsom ei bod yn gyfnod cyffrous a heriol i ysgolion wrth i'r Cwricwlwm Newydd gael ei gyflwyno. Roeddem yn falch o glywed bod cymorth effeithiol ar gyfer ysgolion a chlystyrau o ysgolion yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth allweddol. Roeddem yn arbennig o falch o glywed y bydd cymorth ar gyfer ysgolion unigol ar gael os bydd ei angen. Roeddem am bwysleisio pwysigrwydd cymorth cyson da ar gyfer athrawon sy'n pontio i ddefnyddio'r Cwricwlwm Newydd, gan y bydd rhai yn ei chael yn fwy heriol nag eraill. Rydym hefyd yn falch iawn o glywed bod gwaith tîm 'nawr wrth wraidd y bartneriaeth newydd hon, a hefyd am y modd y mae hyn wedi llywio'r Cynllun Busnes ac y bydd yn parhau i wneud hynny wrth symud ymlaen.

Roeddem wedi trafod a chytuno ar ein Blaenraglen Waith ar gyfer y flwyddyn ysgol hon. Bydd ein cyfarfodydd yn cyd-daro â chyfarfodydd eich Cyd-bwyllgor fel y gallwn ystyried yr hyn a drafodir a rhoi ein barn. Byddwn yn cwrdd â chi a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol eleni, ac yn ystyried y Cynllun Busnes, materion Ariannol, a'r proffil risgiau, ac, ym mhob cyfarfod, byddwn yn cael diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r Cwricwlwm Newydd. Rydym wedi cytuno i gael diweddariad ar y broses o roi chwe blaenoriaeth allweddol Partneriaeth ar waith, a byddwn yn gwneud hyn mewn rhaglen dreigl, un ym mhob un o'n cyfarfodydd.

Byddem yn croesawu eich barn ar gynnwys y llythyr hwn, ond ni fydd ymateb ysgrifenedig ffurfiol yn ofynnol ar yr adeg hon.

Yr eiddoch yn gywir,

**Y Cynghorydd Lyndon Jones**
**Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth**
Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk